

# Atodiadau




Cribyn â Chronfa Ddŵr Neuadd a  
Chronfeydd Dŵr Pontsticill tu hwnt


# Atodiad I: Mapiau

Map 1	<b>Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdodau Unedol</b> . . . . .	162
Map 2	<b>Tirwedd</b> . . . . .	163
Map 3	<b>Daeareg</b> . . . . .	164
Map 4	<b>Defnydd Tir</b> . . . . .	165
Map 5	<b>Perchnogaeth Tir</b> . . . . .	166
Map 6	<b>Ardaloedd Cadwraeth Adran 3</b> . . . . .	167
Map 7	<b>SoDdGAoedd, SACs a Gwarchodfeydd Natur</b> . . . . .	168
Map 8	<b>Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</b> . . . . .	169
Map 9	<b>Ardaloedd Gweledol a Synhwyrdd LANDMAP</b> . . . . .	170

Map | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdodau Unedol




Map 2 Tirwedd



© APC Bannau Brycheiniog, Hawffraint y Goron, 100019322, 2010.


# Map 3 Daeareg



- Allweddol Daeareg**
  - Carbonifferaidd**
    - Cystradau Glo
    - Cystradau Glo Isaf a Chanol
    - Y Garreg Ddifiath
    - Grŵp Marnos ('Grut Melinafen')
    - Carreg Laid Llandeilo Ferwallt ('Sialau Canol')
    - Tywodfaen Twrch ('Grut Gwaelodol')
    - Calchfaen Carbonifferaidd
    - Calchfaen
  - Defonaidd**
    - Defonaidd Uchaf
      - Ffurfiannau Haenau'r Llwyfandir ar Grütiau Llwyd
    - Defonaidd Isaf
      - Ffurfiannau'r Cerrig Cochion & Gwelyau Senni
      - Ffuriant Llanfocha
  - Silwraidd**
    - Ffuriant Carreg Laid Rhaglan
    - Ffuriant y Telfeini
    - Creigiau Silwraidd hyn
  - Ordofgaidd**
    - Creigiau Ordofgaidd
- Ffyn y Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
  - Llynnoedd a Chronfeydd Dŵr


© APC Bannau Brycheiniog, Hawlfraint y Goron, I00019322, 2010.  
 Gwybodaeth ddaearegol yn deillio o fapio gan Arolog Daearegol Prydeinig ©NERC 2010.

Map 4 Defnydd Tîr




© APC Bannau Brycheiniog, Hawlfraint y Goron, 100019322, 2010.

# Map 5 Perchnogaeth Tir



© AFC Bannau Brycheiniog, Hawlfraint y Goron. 100019322. 2010.


Map 6 Ardaloedd Cadwraeth Adran 3



Mynydd-dir, gweundir a rhostir  
 Coetir




Map 7 SoDdGAoedd, SACs a Gwarchodfeydd Natur



© APC Bannau Brycheiniog, Hawlfraint y Goron. 100019322. 2010.


Map 8 Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol



© APC Bannau Brycheiniog, Hawffraint y Goron. 100019322. 2010.

Tirwedd Ddiwydiannol Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon

Map 9 Ardaloedd Gweledol a Synhwyraidd



© APC Bannau Brycheiniog, Hawlfraint y Goron, 100019322, 2010.



# Atodiad 2: Acronymau

AAS	Aseiad Amgylcheddol Strategol	CG	Cymoedd Gwyrdd
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol	CGBLI	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
ACP	Adroddiad Cyflwr y Parc	CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
ADCDF	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang	CFFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
ADP	Arolwg Daearegol Prydain	CFFI Cymru	Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	CGC	Cydlynwyr Gwirfoddolwyr Cymunedol
ANCG	Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig	CGHT	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
AP	Awdurdod Prifffyrdd	CHI	Cymdeithas Hostelaau Ieuencid
APC	Awdurdod Parc Cenedlaethol	CPCAAA	Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored
APCBB	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	CRhPC	Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol
ATGA	Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Anturus	CSP	Cyngor Sir Powys
CAAA	Canolfan Addysg Awyr Agored	CTBCG	Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
CAAL	Cynllun Asiantaeth yr Amgylchedd Lleol	CTN	Canolfan Treftadaeth Naturiol
CAP	Polisi Amaethyddol Cyffredin	CYAC	Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru
CAPC	Cymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol	DC	Dŵr Cymru
CAPCC	Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru	DCGHT	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
CBHC	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
CC	Comisiwn Coedwigaeth	DP	Dyfrffyrdd Prydain
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	DTC	Draenio Trefol Cynaliadwy
CCD	Cadwch Cymru'n Daclus	EGN	Rhwydwaith Geoparciau Ewrop
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	FBMC	Ffederasiwn Beiciau Modur Cymru
CCLI	Cynlluniau Cludiant Lleol	FMLI	Fforwm Mynediad Lleol
CCRhau	Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol	FTCC	Fforwm Tiroedd Comin Cymru
CDC	Cronfa Datblygu Cynaliadwy	GGB	Gwasanaethau Gwybodaeth Brycheiniog
CDG	Cynllun Datblygu Gwledig	GGN	Rhwydwaith Geoparciau Byd-eang
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol	GNC	Gwarchodfa Natur Cenedlaethol
CDU	Cynllun Datblygu Unedol	GNLI	Gwarchodfa Natur Lleol
CE	Comisiwn Ewropeaidd	HCion	Henebion Cofrestredig
		HDC	Hen Dywodfaen Coch
		HG	Heneb Gofrestredig
		HRA	Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd

HTC	Hawl Tramwy Cyhoeddus	SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
ICOMOS	Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd	SPA	Ardal Cadwraeth Arbennig
IUCN	Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur (Undeb Cadwraeth y Byd)	STB	Safle Treftadaeth y Byd
LEADER+	Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale	SWWITCH	Consortiwm Cludiant Integredig De Orllewin Cymru
LEM	Llyfrfa Ei Mawrhydi	TAN	Nodyn Cyngor Technegol
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru	TBB	Twristiaeth Bannau Brycheiniog
MIPPS	Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog	UAC	Undeb Amaethwyr Cymru
N2K	Natura 2000	UCA	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
NHC	Newid yn yr Hinsawdd Cymru	UE	Undeb Ewropeaidd
PCC	Polisi Cynllunio Cymru	UNESCO	Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig
PCCBB	Partneriaeth Cludiant Cynaliadwy Bannau Brycheiniog	WFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
PCY	Partneriaeth Cludiant Ymwelwyr	WHS	Safle Treftadaeth y Byd
PRhCBC	Parc Rhanbarthol y Cymoedd Blaenau'r Cymoedd	YAC	Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
PTA	Prosiect Tirweddau Anghofiedig	YBG	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
PTCC	Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru	YDCW	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
RBMP	Cynlluniau Rheoli Basn Afon	YDLIW	Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig
RhEHDU	Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU	YG	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
RhGYA	Rhaglen Gymorth Ynni Adnewyddadwy	YWA	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
SA	Gwerthusiad Cynaliadwyedd		
SAC	Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)		
SCSCDU	Safon Cynllun Sicrhau Coetir y DU		
SDCau	Systemau Draenio Cynaliadwy		
SDGPRh	Safleoedd Daearegol a Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol		
SEA	Asesiad Amgylcheddol Strategol		
SEWTA	Cynghair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru		
SGD	System Gwybodaeth Ddaearyddol (mapiau cyfrifiadurol)		

# Atodiad 3: Geirfa

**ADCDF** - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, sef dull o weithredu sy'n cynnwys y cwricwlwm cyfan a rheolwyr yr ysgol, nid pwnc 'ychwanegol' yn unig. Mae ei gwreiddiau yn addysg amgylcheddol ac addysg datblygu. O ganlyniad, efallai bod llawer o flocciau adeiladu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eisoes yn bresennol ym mhob ysgol.

**Adnoddau Pridd** - Mae pridd yn cael ei ystyried fel adnodd nad yw'n adnewyddadwy oherwydd ni ellir ei ail-greu yng nghyd-destun graddfeydd amser daearegol.

**Allgau cymdeithasol** - Yn ymwneud â dieithriad neu ddadryddfreiniad pobl benodol mewn cymdeithas. Yn aml mae'n gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol, statws addysgol a safonau byw unigol a sut allai'r rhain effeithio ar ei fynediad/mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd. Mae hefyd yn ymwneud i raddau â phobl anabl, dynion a merched lleiafrifol o bob hil a'r henoed. Gall unrhyw un y canfyddir ei fod/bod yn gwyro o'r norm mewn poblogaeth fod yn destun i ffurfiau amlwg neu gynnil o allgau cymdeithasol.

**Amaethyddiaeth** - Gwyddoniaeth, celfyddyd a busnes trin pridd, cynhyrchu cynydau a magu anifeiliaid; ffermio. Cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl a bwyd ar gyfer da byw yn bennaf, ond yn fwy diweddar mae hefyd yn cynnwys cynhyrchu cynydau ynni.

**Amgylchedd Hanesyddol** - Mae'r "amgylchedd hanesyddol" yn cwmpasu'r holl weddillion materol hynny mae cyndadau dynol wedi'u creu yn nhirweddau trefol a gwledig. Mae'n cynnwys holl sbectrwm gweithgareddau dynol o'r mwyaf - trefi, eglwysi cadeiriol neu draffyrdd, i'r lleiaf - arwyddbyst, meini hirion neu arfau fflint.

**Anthropocenaidd** - Yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r cyfnod mwyaf diweddar yn hanes y Ddaear, yn dechrau yn y 18fed ganrif pan ddechreuodd gweithgareddau'r hil ddynol gael effaith byd-eang sylweddol ar hinsawdd ac ecosystemau'r Ddaear.

**Arallgyfeirio Fferm** - Dull busnes o weithredu lle mae gweithgareddau eraill yn cael eu cynnal ar fferm yn ogystal â chynhyrchu amaethyddol (ac yn aml fel atodiad i hyn), fel maes gwersylla, Gwely a Brecwast neu weithgaredd hamdden. Gall hyn hefyd cynnwys arallgyfeirio'r cynnyrch amaethyddol, gweithredu siop fferm neu reoli tir at ddibenion gwahanol i gynhyrchu fel cadwraeth bywyd gwyllt. Hefyd mae Arallgyfeirio Economaidd yn gysylltiedig ag arallgyfeirio fferm oherwydd nid yw'r incwm bellach yn dod o un ffynhonnell yn unig.

- Arallgyfeirio (arian), lledaenu buddsoddiadau.
- Arallgyfeirio (strategaeth farchnata), cynnyrch a marchnadoedd newydd.

**Archaeoleg** - Astudiaeth systematig bywyd a diwylliant dynol yn y gorffennol trwy adfer ac archwilio'r dystiolaeth faterol sy'n aros, fel beddau, adeiladau, offer llaw a chrochenwaith.

**Ardal Gadwraeth** - Ardaloedd o ddi-ddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol eu cadw a'u gwella (Deddf Cynllunio, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

## Atal sŵn

- Lleihau lefel pŵer sŵn mewn cylchedau trydan.
- Y broses o leihau allbwn sŵn derbynnydd yn awtomatig yn ystod cyfnodau pan nad oes unrhyw gludwr yn cael ei dderbyn.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC)** - Corff llywodraeth leol sy'n cynnwys aelodau a etholwyd ac aelodau heb eu hethol sy'n gweithio gyda swyddogion cyflogedig i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol fel manylwyd amynt yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a Deddf yr Amgylchedd 1990. Mae gan yr APC gyfrifoldebau am benderfynu ar geisiadau cynllunio yn y Parc Cenedlaethol ynghyd â gwasanaethau eraill fel rheoli tir, hybu mynediad a mwynhad a datblygu cymdeithasol ac economaidd. Mae'r Awdurdodau Unedol cyfansodol, y mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu eu tir, yn cadw cyfrifoldeb am wasanaethau eraill

craidd awdurdodau lleol fel darparu ysgolion a chynnal a chadw priffyrdd.

**Awdurdod Unedol (UA)** - Math o awdurdod lleol sydd ag un haen ac sy'n gyfrifol am holl swyddogaethau Llywodraeth yn ei ardal neu'n cyflawni swyddogaethau ychwanegol sy'n cael eu cyflawni gan Lywodraeth Genedlaethol, neu lywodraeth is-genedlaethol lefel uwch, yn ardaloedd eraill.

Yn nodweddiadol mae Awdurdodau Unedol yn cwmpasu trefi neu ddinasoedd sy'n ddigon mawr i weithredu'n annibynnol ar weinyddiaeth sirol neu ranbarthol arall. Weithiau maent yn cynnwys isadrannau cenedlaethol, sy'n cael eu gwahaniaethu gan rai eraill yn yr un wlad oherwydd nad oes ganddynt unrhyw lefel is o weinyddiaeth. Ceir 24 Awdurdod Unedol sy'n darparu Llywodraeth leol ar draws Cymru.

**Bioamrywiaeth** - Cyfyngiad o "amrywiaeth biolegol," term a ddefnyddir i gyfeirio at amrywiaeth cyfan o brosesau ac organebau byw. Mae'n cwmpasu tair thema allweddol; amrywiaeth cynefin, yr amrywiaeth o ran y lleoedd mae organebau'n byw fel coedwig neu greigres cwrel; amrywiaeth rhywogaeth, yr amrywiaeth o ran gwahanol organebau byw, fel llygoden, glöyn byw neu facteria; amrywiaeth genetig, y gwahaniaethau sy'n digwydd yn naturiol ymhlith aelodau unigol rhywogaeth, fel mae'r gwahaniaethau yn y genynnau sy'n gwneud pob unigolyn yn mynegi, mae'r amrywiaeth genetig hon yn pweru esblygiad ac addasiad rhywogaeth ac ymddangosiad rhywogaeth newydd.

**Bugeiliol** - Rheoli da byw a thir pori.

**Cadernid** - Y gallu i wella yn dilyn effaith niweidiol.

**Cadwraeth** - Amddiffyniad, cadwedigaeth, rheolaeth neu adferiad amgylcheddau naturiol neu hanesyddol, y cymunedau ecolegol sy'n preswyllo ynddynt a'r elfennau diwylliannol a thraddodiadol sy'n eu siapio. Bydd y rhain yn cael eu nodi yn y testun drwyddo draw gan addasyddion penodol, (e.e., cadwraeth "bioamrywiaeth").

**Calchbalmant** - Pan gafodd y dirwedd ei cherfio gan iâ mwy na 10,000 o flynyddoedd yn ôl, dinoethodd a llyfnhaodd ardaloedd o galchfaen ar y wyneb. Bellach mae'r calchfaen wedi cael ei thoddi yn rhannol gan ddŵr glaw, gan greu patrwm nodedig o flociau a holltau, o'r enw calchbalmant. Mae'r holltau hyn yn cynnal cymunedau o blanhigion a dyma un o'r cynefinoedd mwyaf prin yng Nghymru.

**Cambriaid** - Cyfnod daearegol cyntaf yr oes Balalosöig, a ddigwyddodd rhwng 570-505 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Daw'r enw o'r enw Rhufeinig am Gymru, Cambria. Enw'r holl gyfnod o amser o adeg ffurfio'r creigiau cyntaf hyd 570 miliwn o flynyddoedd yn ôl yw cyn-Cambriaid.

**Carbon niwtral neu niwtraliaeth garbon** - Yn cyfeirio at brosiect, datblygiad neu weithgaredd arall nad yw'n cynhyrchu unrhyw garbon atmosfferig net. Bydd unrhyw garbon sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei wrthbwyso gan rannau eraill o'r prosiect sy'n amsugno a storio carbon, sy'n golygu bod y cynhyrchiad net yn sero. Gwelwch hefyd Di-garbon.

**Carbonifferaid** - Pumed cyfnod daearegol yr oes Balalosöig, a ddigwyddodd rhwng 360-286 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae'r enw yn llythrennol yn golygu "yn cynnwys carbon," cyfeiriad at y creigiau sy'n cynnwys glo sy'n dyddio'n aml o'r cyfnod hwn, a ffurfiwyd ar yr adeg pan oedd planhigion yn gorchuddio'r tir am y tro cyntaf.

**Cilowat (kW)** - Mesur o gyflenwad a threuliant trydanol, mae cilowat yn gyfartal â 1000 wat. Yn nodweddiadol bydd bwlb golau'n treulio 40-100 wat, ond mae bwlb golau egni isel yn treulio 10-15 wat.

**Comins, Tir Comin, Cominwyr, Hawliau Tir Comin** - Tir a ddynodwyd dan amrywiaeth o Ddeddfau y mae gan bobl ar wahân i'r tîrfeidiannwr hawliau drosto yn gyffredin â phobl eraill. Mae unigolyn neu sefydliad yn berchen ar gomins ond mae gan y rheiny sydd â hawliau (y Cominwyr) i ymgymryd â gweithredoedd penodol ar y tir fel troi da byw allan i bori neu dorri a chymryd llystyfiant. Mae'r hawliau a'r cominwyr yn unigryw i bob llain benodol o dir comin. Mae cyfrifoldebau



# Atodiad 3: Geirfa

penodol yn gysylltiedig â pherchen ar dir comin neu ymarfer hawliau cyffredin.

**Conifferaidd** - Coed sy'n cludo hadau mewn conau sych a'r rheiny sydd â dail cul iawn. Coed bytholwyrdd yw'r rhain fel arfer ac ym Mannau Brycheiniog maent yn blanhigfeydd sy'n cael eu tyfu fel cnwd. Nid oes unrhyw gonwydd yn digwydd yn naturiol yn y Parc Cenedlaethol.

**Curriculum Cymraeg** - Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, a addaswyd i sicrhau bod yr iaith Gymraeg wedi'i chynnwys fel pwnc craidd.

**Cwricwlwm Cenedlaethol** - Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cwmpasu pob disgybl 5-16 oed ac wedi'i rannu yn 4 cyfnod allweddol. Mae'n manylu ar yr hyn y mae'n rhaid ei addysgu i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol i sicrhau bod yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu yn datblygu yn gynyddol. Felly er bod rhywfaint o hyblygrwydd o ran beth yn union a addysgir, mae'r rhaid cwmpasu pynciau penodol ac addysgu testunau penodol yn ystod cyfnod allweddol penodol.

**Cydweithio** - Unigolion neu grwpiau yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig mewn ymdrech deallusol ar y cyd er budd ac elw'r naill barti a'r llall, ac fel arfer fel partïon cyfartal.

**Cyfannol** - Pwysleisio pwysigrwydd y cyfan a chyddibyniaeth ei rannau.

**Cyfnod Allweddol 1, 2, 3, 4** - Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol sy'n manylu ar yr hyn y mae'n rhaid i ddisgyblion ddysgu a phryd. Mae cyfnod allweddol 1 yn cwmpasu disgyblion 5-7 oed, cyfnod 2 disgyblion 7-11 oed, cyfnod 3 disgyblion 11-14 oed a chyfnod 4 disgyblion 14-16 oed.

**Cyfnodau Daearegol** - Graddfa amser daearegol sy'n cael ei defnyddio gan ddaearegwyr, palaeontolegwyr a gwyddonwyr daear eraill i ddisgrifio amseru a pherthnasau rhwng digwyddiadau sydd wedi digwydd yn ystod hanes y Ddaear.

**Cymunedau cynaliadwy** - Cymunedau sy'n cael eu cynllunio, eu hadeiladu neu eu haddasu i hybu byw yn gynaliadwy. Maent

yn tueddu i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd amgylcheddol (gan gynnwys datblygu ac amaethyddiaeth) a chynaliadwyedd economaidd. Gall cymunedau cynaliadwy ganolbwyntio ar isadeiledd trefol cynaliadwy a/neu isadeiledd bwrdeistrefol cynaliadwy.

**Cynaliadwy** - Proses neu gyflwr sy'n gallu cael ei chynnal/gynnal ar lefel benodol amhendant. Mewn perthynas ag unrhyw adnodd naturiol, mae cynaliadwy yn golygu gellir defnyddio'r adnoddau ar gyfradd sy'n gyfartal i allu'r adnoddau hynny i ailgyflenwi eu hunain, neu'n llai, gan ganiatáu'r adnodd i gael ei ddefnyddio cymaint â phosibl yn y dyfodol ag ar hyn o bryd h.y. ni fydd yr adnodd yn mynd yn brin neu'n dod i ben.

**Cynhwysiant cymdeithasol** - Yn ymwneud â chynnwys pob rhan o gymdeithas, waeth beth yw'r hil, rhyw, cred, sefyllfa economaidd neu unrhyw ffactor arall sy'n cael ei ddefnyddio yn gyffredin i wahanu grwpiau cymdeithasol.

**Cynllun Amaeth-amgylchedd** - Mecanwaith lle gellir cymell tirfeddianwyr, ac unigolion a chyrrff eraill sy'n gyfrifol am reoli tir, i reoli eu tir mewn modd sy'n ystyriol i'r amgylchedd.

**Daeareg** - Yr astudiaeth o broses a datblygiad ffisegol y Ddaear, yn enwedig ffurfiant creigiau a phriddoedd. Ceir term mwy penodol i ddisgrifio ffurfiant tirweddau sef Geomorffoleg, ond mae cysylltiad agos rhwng y ddwy ddisgyblaeth.

## Daearyddol

- Yn ymwneud â daearyddiaeth neu'n gysylltiedig â hi.
- Yn ymwneud â thopograffi rhanbarth penodol.

**Datblygu cynaliadwy** - Dull o ymdrin â darparu prosiectau sy'n sicrhau bod ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried yn gyfartal ac nad yw gwireddu'r prosiect yn amharu ar allu cenedlaethau yn y dyfodol i ddefnyddio'r un adnoddau.

**Degawd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig** - Yn 2002, mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Gynnig 57/254 i ddynodi'r

degawd 2005-2015 yn "Ddegawd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig."

**Dehongli** - Y broses o helpu pobl i ddeall arwyddocâd lle, gwrthrych, digwyddiad neu bwnc fel eu bod yn ei fwynhau mwy, â gwell gwerthfawrogiad o dreftadaeth y cwmpasoedd maent yn ymweld â hwy neu le maent yn byw ac yn datblygu agwedd bositif tuag at gadwraeth.

**Di-garbon** - Datblygiad prosiect neu weithgaredd arall nad yw'n cynhyrchu unrhyw garbon atmosfferig o gwbl. Mae hyn yn wahanol i Garbon niwtral a charbon isel.

**Dyddodiad asid** - Croniad asidau neu gyfansoddion asidig ar wyneb y Ddaear, mewn llynnoedd neu nentydd, neu ar wrthrychau neu lystyfiant yn agos at wyneb y Ddaear; o ganlyniad i'w gwahaniad o'r atmosffer. Gall dyddodiad asid niweidio'r amgylchedd mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft trwy achosi asideiddio llynnoedd a nentydd, trwytholchi mwynhau a maetholion eraill o bridd, ac atal sefydlogiad nitrogen a ffotosynthesis mewn planhigion.

**Dyfnantaidd** - Pedwerydd cyfnod daearegol yr oes Balalosöig, a ddigwyddodd rhwng 408-360 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Daw'r enw o sir Dyfnaint yn Lloegr.

**Ecoleg** - Yr astudiaeth wyddonol o systemau o organebau byw, y rhngweithiadau rhwng organebau a rhwng organebau a'u hamgylchedd. Mae amgylchedd organeb yn cynnwys priodweddau ffisegol, fel glawiad neu olau'r.

#### Economaidd

- Yn ymwneud â chynhyrchiad, datblygiad a rheolaeth cyfoeth materol, neu'n gysylltiedig â'r pethau hyn, fel yn achos gwlad, cartref, neu fenter busnes.
- Yn ymwneud ag economi neu'n gysylltiedig ag ef: cyfnod o dwf economaidd cyson.
- Yn ymwneud â gwyddoniaeth economeg neu'n gysylltiedig â hyn: theorïau economaidd newydd mewn perthynas ag effeithiau gwariant diffyg.
- Effeithlon; darbodus: Defnydd economaidd o olew i gynhesu cartrefi.

**Ecosystem** - Cydgyuned o blanhigion, anifeiliaid a micro-organebau sy'n gyd-ddibynnol ar ei gilydd ac â holl ffactorau ffisegol heb fod yn fyw eu hamgylchedd.

**Ecotwristiaeth** - Sydd hefyd yn cael ei alw'n dwristiaeth ecolegol sef ffurf o dwristiaeth sy'n apelio i bobl ag ymwybyddiaeth ecolegol a chymdeithasol. Yn gyffredinol, mae ecotwristiaeth yn canolbwyntio ar ddiwylliant lleol, anturiaethau diffeithwch, gwirfoddoli, twf personol, a dysgu ffyrdd newydd o fyw ar y blaned; yn nodweddiadol yn cynnwys teithio i gyrchfannau lle planhigion, anifeiliaid, a threftadaeth ddiwylliannol yw'r prif atyniadau. Mae angen i ddatblygu cynaliadwy fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, economaidd a chymdeithasol gyda'i gilydd er mwyn i hyn ddigwydd.

**Eco-Ysgolion** - Rhaglen ryngwladol o addysg am yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy i ysgolion.

**Effaith Gymdeithasol** - Ym musnes a pholisïau'r Llywodraeth, mae effaith gymdeithasol yn cyfeirio at sut mae gweithredu'r sefydliad yn effeithio ar y gymuned sy'n ei amgylchynu.

**Eglwysig** - Yn ymwneud ag eglwys, neu'n gysylltiedig ag eglwys, yn enwedig fel sefydliad wedi'i drefnu.

**Egni adnewyddadwy** - Egni sy'n cael ei gynhyrchu o adnodd naturiol fel golau'r haul, gwynt, llanwau, dŵr sy'n llifo, biomas a gwres geothermol, mae'r adnoddau hyn yn cael eu hailgyflenwi yn naturiol. Hefyd yn cael ei alw'n Egni Gwyrdd.

**Egni adnodd neu egni heb fod yn adnewyddadwy** - Egni sy'n cael ei gymryd o ffynhonnell sy'n cael ei ddisbyddu trwy ei echdynnu. Mae'n dibynnu ar ddeunyddiau traul. Daw ffynonellau egni heb fod yn adnewyddadwy o'r ddaear ac maent yn ymddangos fel solidau fel glo, hylifau fel olew a nwyon fel nwy naturiol.

**Erydiad pridd** - Colled pridd o wyneb neu is-wyneb y ddaear sy'n cael ei achosi yn naturiol gan wynt neu ddŵr, ond sydd hefyd yn cael ei achosi yn artiffisial gan weithgareddau dynol fel amaethyddiaeth a chloddio.

# Atodiad 3: Geirfa

**Geoamrywiaeth neu amrywiaeth daearegol** - Amrywiaeth mwynau, creigiau (p'un a ydynt yn 'solid' neu'n 'ddrift'), ffosilau, priddoedd, tirffurfiau a phrosesau daearegol sy'n cynnwys topograffi, tirwedd a strwythur sylfaenol y Ddaear. Gellir defnyddio'r term hwn i ddisgrifio unrhyw ranbarth, sir neu wlad benodol. Mae gradd y geoamrywiaeth yn dibynnu ar amrediad y nodweddion daearegol a phaleontolegaidd mewn perthynas â'r rhanbarth neu ardal dan sylw. Mae geoamrywiaeth cymharol uwch (mwy cyfoethog) mewn ardaloedd sy'n cael eu nodweddu gan bresenoldeb llawer o wahanol strwythurau daearegol, yn enwedig os yw'r rhain yn perthyn i wahanol oesau daearegol (fel sy'n digwydd yn Ynysoedd Prydain). Mae amrywiaeth cymharol is yn digwydd mewn ardaloedd sy'n cael eu nodweddu gan leiniau mawr o strwythurau daearegol tebyg, er enghraifft diffeithdiroedd y Ddaear.

**Geomorffoleg** - Yr astudiaeth o ddatblygiad, esblygiad a ffurfwedd tirffurfiau.

**Geoparc** - Tiriogaeth sy'n cwmpasu un neu fwy safle o bwysigrwydd gwyddonol, am resymau daearegol ond hefyd yn rhinwedd rhywbeth ei werth archeolegol, ecolegol neu ddiwylliannol. Mae UNESCO yn nodi a rhoi gwybod am y rhain.

**Globaleiddio** - Yn cyfeirio at gysylltedd ac integreiddiad byd-eang cynyddol yn y sfferau economaidd, cymdeithasol, technolegol, diwylliannol, gwleidyddol ac ecolegol.

**Gwaddod** - Deunydd sy'n setlo i waelod hylif, gwaelodion neu ddarnau solid o ddeunydd anorganig/organig a daw o hindreuliad creigiau ac sy'n cael eu cludo a'u dyddodi gan wynt, dŵr neu iâ.

**Gwasanaethau ecosystem** - Gwasanaethau defnyddiol sy'n cael eu darparu i fodau dynol fel sgil gynnyrch o ryngweithio gweithgareddau biolegol mewn ecosystem, fel puro dŵr yn naturiol trwy wlypdiroedd, neu weny yn peillio cnydau.

**Gwrthwynebiad / Gwydnwch** - Y weithred o wrthwynebu rhywbeth. Mewn cyd-destun ecolegol, mae'n golygu gallu

organeb, cynefin neu gymuned to wrthsefyll straen neu aflonyddwch.

**Hamdden** - Gweithgaredd sy'n cael ei wneud ar gyfer pleser, ymlacio neu fwynhad personol.

**Hierarchaeth** - Trefniadaeth berthynol pobl neu gyrff eraill gan ddibynnu ar lefelau cyfrifoldeb, ymwneud, ac ati.

**Lled-Fferal** - Yn cyfeirio at anifeiliaid sy'n rhannol ddof a than berchnogaeth unigol gan bobl ond yn cael caniatâd i fyw'n wyllt heb lawer o gyfyngiadau o ran lle maent yn dewis crwydro neu beth maent yn dewis bwyta.

**Llygrydd** - Rhywbeth sy'n llygru, yn enwedig deunydd gwastraff sy'n halogi aer, pridd neu ddŵr.

**Llygredd Gwasgaredig** - Yn cynnwys halogiad a llygredd heb wir bwynt ffynhonnell sy'n codi o luosogrwydd o ffynonellau pwynt gwasgaredig, sydd yn aml yn fân yn unigol. Enghreifftiau o ffynonellau gwir bwynt ffynhonnell yw dŵr ffo llen o gaeau neu dryddiferiad maetholion o bridd i dŵr daear. Enghreifftiau o ffynonellau mân bwynt yw ffosydd cae neu ddraeniau dŵr wyneb mewn ardaloedd gwledig. Yn aml mae ffynonellau gwasgaredig yn fân yn unigol, ond yn arwyddocaol gyda'i gilydd.

**Mesurau Glo** - Term cyfunol ar gyfer y gyfres o greigiau a gwythiennau glo sy'n gysylltiedig, sy'n dyddio o'r cyfnod Carbonifferaidd a ddigwyddodd ar draws de Cymru.

**Micro ynni dŵr neu ynni dŵr ar raddfa fach** - Un o'r technolegau egni adnewyddadwy mwyaf effeithlon sydd ar gael. Diffiniad systemau micro ynni dŵr yw bod ganddynt llai na 50kW o allu wedi'i osod ac, yn wahanol i ynni dŵr ar raddfa fawr, nid ydynt yn ceisio ymyrryd yn sylweddol â llif ar hyd cwrs dŵr.

**Microgynhyrchu** - Generadiad gwres a phŵer sero carbon neu garbon isel gan unigolion, busnesau bach a chymunedau i ddiwallu eu hanghenion lleol eu hunain, fel arfer 100kW neu lai.

**Newid hinsawdd** - Yn cyfeirio at yr amrywiad yn hinsawdd

fyd-eang y Ddaear neu mewn hinsoddau. Mae'n disgrifio newidiadau yn amrywioldeb neu gyflwr cyfartalog yr atmosffer dros gyfnodau amser sy'n amrywio o ddegawdau i filiynau o flynyddoedd. Gall y newidiadau hyn gael eu hachosi gan brosesau sy'n fewnol i'r Ddaear, grymoedd allanol (e.e., amrywiadau yn nwyster golau'r haul) neu, yn fwy diweddar, gweithgareddau dynol.

**Ôl troed ecolegol** - Dadansoddiad sy'n mesur galw dynol ar natur. Mae'n cymharu defnydd dynol o adnoddau naturiol â gallu ecolegol planed y Ddaear i'w hatgynhyrchu. Amcangyfrif yw hwn o faint o ardal môr a thir sy'n gynhyrchu yn fiolegol sydd ei angen i atgynhyrchu (os yw'n bosibl) yr adnoddau bydd poblogaeth ddynol yn defnyddio ac amsugno'r gwastraff sy'n cyfateb, o ystyried technoleg gyffredinol a dealltwriaeth ar yr adeg dan sylw. Gan ddefnyddio'r asesi hwn, mae'n bosibl amcangyfrif sawl un o blanedau'r Ddaear byddai eu hangen i gynnal dynoliaeth petai gan bawb ffordd o fyw benodol. Er bod y mesur hwn yn cael ei ddefnyddio yn eang, mae rhai yn beirniadu'r dull hwn o weithredu hefyd.

**Olew Brig** - Y pwynt mewn amser pan mae cyfradd fwyaf posibl echdynnu petroliwm yn fyd-eang yn cael ei chyrraedd, ar ôl hynny mae'r gyfradd gynhyrchu yn cychwyn ar ddirywiad terfynol a/neu mae cost ei echdynnu yn mynd yn afresymol o ddrud. I bob pwrpas mae galw byd-eang wedi trechu cyflenwad byd-eang.

**Ordoficaidd** - Ail gyfnod daearegol yr oes Balalosöig, a ddigwyddodd rhwng 505-438 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Daw'r enw o'r Ordofigiaid, llwyth a oedd yn byw yng nghanolbarth a de Cymru ar adeg meddiannaeth y Rhufeiniaid.

**Rheoli Tir Integredig** - Cyfuno neu gydlyn cynlluniau rheoli tir ar wahân i ddarparu dull trefnus neu strwythuredig o weithredu fel bod yr holl unedau cyfansoddol yn gweithredu yn gydweithredol.

**Rheoli Ucheldir** - Rheoli tir sy'n uwch na'r llinell amgáu. Fel arfer nid yw'r tir hwn wedi'i wella yn amaethyddol; yn aml

mae'n dir comin neu dan berchnogaeth a rennir ac mae'n ffurfio ardaloedd agored mawr heb ffensys a strwythurau eraill.

**Silwraidd** - Trydydd cyfnod daearegol yr oes Balalosöig, a ddigwyddodd rhwng 438-408 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Daw'r enw o'r Silwriaid, llwyth a oedd yn byw yng nghanolbarth a de Cymru ar adeg meddiannaeth y Rhufeiniaid.

**Strategaethau Rheoli Echdynnu Dalgylch** - Un o'r ffyrdd mae hyn yn cael ei wneud yw trwy drwyddedu tynnu dŵr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi datblygu Strategaethau Rheoli Echdynnu Dalgylch (SRED):

- I ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am adnoddau dŵr ac arferion trwyddedu.
- I ddarparu dull cyson o ymdrin â rheoli adnoddau dŵr lleol.
- I helpu i gydbwysu anghenion defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd.
- I gynnwys y cyhoedd wrth reoli'r adnoddau dŵr yn eu hardal.

**Tai Fforddiadwy** - Yn cael ei ddiffinio fel eiddo i'w rhentu ar lefelau rhent meincnod landlord cymdeithasol cofrestredig a thai canolraddol fel eiddo ar gael ar gyfer perchentyaeth cost isel yn unol â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

